Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Adroddiad Blynyddol a Chyfriflenni Ariannol y Comisiynydd Gwybodaeth 2013/14

Effeithiol, effeithlon - a phrysurach nag erioed

ico.
Information Commissioner's Office

Amcan

Amcan yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er lles y cyhoedd, hyrwyddo tryloywder gan gyrff cyhoeddus a phreifatrwydd data i unigolion.

Nod

Nod yr ICO yw creu cymdeithas lle bydd:

- Pob sefydliad sy'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol yn gwneud hynny mewn ffordd gyfrifol, yn ddiogel ac yn deg.
- Pob awdurdod cyhoeddus yn agored ac yn dryloyw, gan roi mynediad naturiol i bobl at wybodaeth swyddogol.
- Pobl yn ymwybodol o'u hawliau gwybodaeth ac yn hyderus o'u defnyddio.
- Pobl yn deall sut y defnyddir eu gwybodaeth bersonol ac yn medru cymryd camau i ddiogelu eu hunain os camddefnyddir y wybodaeth honno.

Ein gweledigaeth

I gael ein hadnabod gan ein rhanddeiliaid fel y canolwr awdurdodol ar hawliau gwybodaeth, yn cyflawni canlyniadau safonol, perthnasol ac amserol, yn ymatebol a phellgyrhaeddol yn ein hymagwedd, ac ynghyd â staff ymroddgar a medrus – yn esiampl o reoleiddio da ac yn lle ardderchog i weithio ac i ddatblygu.

Eich hawliau gwybodaeth

Mae **Deddf Diogelu Data 1998** yn rhoi hawliau pwysig i ddinasyddion sy'n cynnwys yr hawl i wybod pa wybodaeth a ddelir amdanynt a'r hawl i gywiro gwybodaeth sy'n anghywir. Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi cymorth i ddiogelu lles unigolion drwy orfodi sefydliadau i reoli'r wybodaeth bersonol a ddelir ganddynt mewn modd priodol.

Mae **Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000** yn rhoi hawl cyffredinol i gael mynediad at wybodaeth a ddelir gan y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus. Gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd ar draws y sector cyhoeddus, mae'n galluogi gwell dealltwriaeth o sut mae awdudrodau lleol yn cynnal eu dyletswyddau, y rhesymau am eu penderfyniadau ac ar beth y gwarir arian cyhoeddus ganddynt.

Mae **Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003** yn ategu'r Ddeddf Diogelu Data drwy reoleiddio'r defnydd o gyfathrebu electronig er diben marchnata digymell i oedolion a sefydliadau, yn cynnwys y defnydd o gwcis.

Mae **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004** yn cynnig modd ychwanegol o gael mynediad at wybodaeth amgylcheddol. Mae'r Rheoliadau'n cwmpasu mwy o sefydliadau na'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, yn cynnwys rhai cyrff o'r sector cyhoeddus, ac mae llai o eithriadau yn perthyn iddynt.

Mae **Rheoliadau Seilwaith ar gyfer Gwybodaeth Ofodol yn y Gymuned Ewropeaidd 2009** yn rhoi grym gorfodi i'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth bwrpasol gan awdurdodau lleol ar sail gwybodaeth ddaearyddol neu leoliad.

Rhagair y Comisiynydd Gwybodaeth

Cynnal hawliau gwybodaeth er lles y cyhoedd yw swyddogaeth yr ICO. Ond mae'n rhaid i hynny ymwneud â mwy na rôl orfodi draddodiadol y rheoleiddiwr yn unig. Yn ogystal â chydymffurfio â'r gwaith o ddiogelu data a chyfraith rhyddid gwybodaeth, mae ein gwaith o addysgu sefydliadau ac unigolion ynglŷn â'u hawliau a'u cyfrifoldebau yr un mor bwysig. Ein nod yw grymuso dinasyddion a defnyddwyr er mwyn iddynt fedru defnyddio eu hawliau yn effeithiol. Rydym yn ceisio galluogi'r datblygiad a'r ddarpariaeth o gynnyrch a gwasanaethau newydd, gan roi cymorth i fusnesau a sefydliadau arloesi heb amharu ar breifatrwydd. Ac rydym yn ymdrechu i ymgysylltu â'r technegau a'r technolegau mwyaf cyfoes – i sicrhau'r cydbwysedd gorau rhwng preifatrwydd a thryloywder.

Bydd rheoleiddio hawliau gwybodaeth yn effeithiol yn seiliedig ar y model ICO yn hanfodol wrth fagu digon o hyder ymysg y cyhoedd, yn y gwasanaethau digidol, boed yn y sector masnachol neu gyhoeddus, ac wrth lywodraethu'n dryloyw ac yn atebol. Datguddiadau Edward Snowden ynglŷn gwyliadwriaeth y wladwriaeth, blerwch y cyfathrebu ynghylch care. dta a mynediad at gofnodion cleifion y GIG, a'r llusgo traed cyson gan awdurdodau lleol ynghylch cyhoeddi 'gwirioneddau anghyfleus' ynghylch polisi a pherfformiad – mae'r rhain oll yn ei gwneud hi'n anoddach hoelio'r gefnogaeth gyhoeddus angenrheidiol i fedru cefnogi cyflwyno ffyrdd newydd a gwell o ddarparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus tlawd sydd ohoni. Ac mae angen i'r elfennau masnachol hefyd ennill ymddiriedaeth nifer o ddefnyddwyr doeth a drwgdybus sydd wedi cael llond bol ar gael eu trin ffel ffyliaid gan frandiau a busnesau mawr gyda'u datganiadau preifatrwydd anelwig a llithrig. Bydd angen gwaith rheoleiddio effeithiol a chyflawn sy'n medru delio â'r byd digidol cyflym er mwyn adfer enw da a magu hyder unwaith eto. Dyma beth sydd ar gael gan yr ICO heddiw – ac felly hefyd i'r dyfodol.

Yn yr adroddiad hwn gallwch ddysgu sut y bu'r ICO yn prosesu'r nifer uchaf erioed o gwynion, gan ateb mwy o gwestiynau ar ein linell gymorth, ac yn cwblhau mwy o weithrediadau gorfodi nag erioed o'r blaen. Mae lefelau uwch o effeithlonrwydd a chynhyrchiant wedi'n galluogi i ddelio â thoriadau i'n cymorth grant a rheoli ein gwariant. Llwyddodd ein hymgynghoriad 'Edrych Ymlaen, Cadw ar y Blaen' i ddatblygu dulliau newydd o ymateb i'r galw cynyddol am ein gwasanaethau. Bellach rydym yn gwneud gwell defnydd o'r cuddwybodaeth sy'n deillio o'r swmp o gysylltiadau cwsmer er mwyn adnabod ein blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth reoleiddiol. Ac rydym yn ymdrechu i weithio'n fwy effeithiol fyth gydag awdurdodau rheoleiddiol eraill i sicrhau'r effaith fwyaf bosib.

Ond er mwyn medru bod yn bartner effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau modern ac arloesol, mae'r ICO angen mwy o rymoedd, system ariannu fwy cynaliadwy, a gwell sicrwydd o annibyniaeth.

Rhaid i ni fedru archwilio unrhyw a phob rheolwr data ac awdurdodau lleol er dibenion cydymffurfiaeth â chyfreithiau hawliau gwybodaeth. Mae angen i bobl sy'n dwyn gwybodaeth bersonol pobl eraill wynebu'r posibilrwydd o gyfnod mewn carchar. A dylai contractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus fod yr un mor dryloyw ac atebol â'u cyfoedion yn y sector cyhoeddus.

Mae cynhyrchiant ac effeithlonrwydd yn yr ICO yn safonol iawn a dengys adroddiad eleni ragor o gynnydd wrth gyflawni 'mwy gyda llai'. Ond mae gwir angen gwell 'model ariannu' ar gyfer hawliau gwybodaeth, a hynny ar frys. Mae'r system gymysg o ffioedd hysbysu ar gyfer gwaith diogelu data a chymorth grant ar gyfer rhyddid gwybodaeth yn dod yn gynyddol anoddach i'w rheoli. Nid yw ein cymorth grant gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a gwtogwyd bob blwyddyn ers i mi ddod yn Gomisiynydd Gwybodaeth yn 2009, yn ddigonol o bell ffordd i ni fedru cyflawni'r gwaith y gallem ac y dylem fod yn ei wneud i hyrwyddo gwell effeithlonrwydd ac atebolrwydd yn y gwasanaeth cyhoeddus. Golyga'r dyraniad o orbenion swyddfa rhwng y ddwy ffynhonnell ariannu ein bod yn cael ein hatal rhag cyflawni'r hyn y gallem ei wneud ar ddiogelu data oherwydd yr effaith eithafol wrth gyfyngu ein cyllideb rhyddid gwybodaeth. Yn ddios bydd angen ffynonellau newydd i ariannu ein gwaith diogelu data pan lwyddir yn y diwedd i setlo ar Reoleiddio newydd yr UE. Rhaid i'r Senedd fynd ati ar fyrder gyda'r dasg o sefydlu ardoll hawliau gwybodaeth graddol unigol i ariannu gwaith pwysig yr ICO fel y corff effeithiol sy'n cynnal ein hawl hanfodol i gael preifatrwydd a'r hawl i gael gwybod.

Yn ogystal â chael y grymoedd a'r adnoddau i wneud y gwaith yn y "Byd Dewr Newydd" sydd ohoni o gyfleoedd a bygythiadau digidol, rhaid i'r Comisiynydd Gwybodaeth gael y gwarant o annibyniaeth a ddaw yn sgil perthynas fwy ffurfiol nag sy'n bodoli ar hyn o bryd gyda'r Senedd. Rydym yn gwerthfawrogi ein rhan yn y gwaith o lunio polisïau yn Whitehall, ond er mwyn bod yn bartner effeithiol rhaid i'r ICO gael ei gydnabod fel sefydliad sy'n fwy na rhyw gorff cyhoeddus anadrannol arall.

Edrychaf i'r Senedd weithredu i gryfhau grymoedd y Comisiynydd, i sicrhau digon o adnoddau ar gyfer y Swyddfa, ac i warantu digon o annibyniaeth i'r Comisiynydd hefyd.

Hoffwn ddiolch i fy nghydweithwyr i gyd yn yr ICO ac i aelodau anweithredol o'r Bwrdd Rheoli – yn benodol i Neil Masom, cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, sydd yn gadael y Bwrdd ar ôl cwblhau ei ail gyfnod. Rwy'n llongyfarch fy holl staff sydd, yn sgil eu perfformiad eleni a adroddir arno yn y tudalennau canlynol, wedi cyflwyno achos cryf dros fuddsoddi yn yr ICO fel y rheoleiddiwr hawliau gwybodaeth sydd ei angen ar y DU i'r dyfodol.

Christopher Graham

Comisiynydd Gwybodaeth

Ein nodau

Ar gyfer 2013/14 bu i'r ICO adnabod y chwe amcan canlynol, a thrwy eu cyflawni byddwn y llwyddo i gwrdd â'n canlyniadau strategol.

1. Bod sefydliadau yn deall eu rhwymedigaethau hawliau gwybodaeth yn well.
2. Y defnyddir grymoedd gorfodi yn gymesur i sicrhau cydymffurfiaeth well â hawliau gwybodaeth.
3. Bod cwsmeriaid yn cael ymateb teg, effeithlon ac sy'n gymesur â'u pryderon ynglŷn â hawliau gwybodaeth.
4. Bod unigolion wedi eu grymuso i ddefnyddio'u hawliau gwybodaeth.
5. Bod yr ICO yn barod i ymateb i newidiadau sy'n effeithio ar hawliau gwybodaeth.
6. ICO effeithiol ac yn barod i wynebu'r dyfodol.

Cipolwg ar ein blwyddyn

Ebrill 2013

Bu i ni gyhoeddi canllaw newydd ar ryddid gwybodaeth ar eithriad polisi'r llywodraeth.

Bu i ni erlyn gwerthwr eiddo am fethu â chofrestru gyda'r ICO.

Mai 2013

Bu i ni gyhoeddi canllaw newydd ar geisiadau trallodus a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a pherthnasedd y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i rwydweithio cymdeithasol a fforymau ar-lein.

Ymchwil ar y goblygiadau posib i fusnesau yn sgil Rheliad Ewropeaidd newydd ar Ddiogelu Data.

Bu i ni ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau ar swyddogaeth Canolfannau Byd Gwaith.

Mehefin 2013

Bu i ni gyhoeddi cosbau ariannol sifil yn erbyn y canlynol am fethu â chadw data personol yn ddiogel:

- Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Stockport
- Cyngor Bwrdeistref Halton
- Cyngor Dinas Glasgow
- Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gyfunol Gogledd Swydd Stafford

Ac i'r canlynol am dramgwyddo Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig:

- Gwasanaethau Ynni Nationwide
- We Claim you Gain

Cyflwynwyd hysbysiad gorfodi yn erbyn Google Inc yn sgil casglu data gan geir Street View Google.

Gorffennaf 2013

Bu i ni gyhoeddi cosbau ariannol sifil yn erbyn y canlynol:

- Gwasanaethau Ynni Tameside Cyf am alwadau marchnata diangen
- GIG Surrey am fethu â chadw data personol yn ddiogel

Cynllun gweithredu i ddelio â galwadau niwsans a gytunwyd ag Ofcom.

Awst 2013

Bu i ni gyhoeddi canllaw ar setiau data dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a chod ymddygiad newydd ar fynediad at bynciau dan y Ddeddf Diogelu Data.

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym i:

- Bwyllgor Dethol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar alwadau ffôn a negeseuon testun niwsans.
- Bwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar dryloywder a lobïo.

Bu i ni lansio archwiliad i honiadau o gosbrestru yn y diwydiant adeiladu.

Bu i ni gyhoeddi cosbau ariannol sifil yn erbyn y canlynol am fethu â chadw data personol yn ddiogel:

- Cyngor Dinas Aberdeen
- Cyngor Bwrdeistref Islington
- Bank of Scotland

Medi 2013

Cyhoeddwyd adroddiad gennym ar gyfer cynrychiolwyr etholedig y DU yn amlinellu arferion da o drin data mewn swyddfeydd etholaethau, a chanllaw newydd hefyd ar farchnata uniongyrchol.

Cyhoeddwyd cosb ariannol sifil gennym yn erbyn Jala Transport Cyf.

Cynhaliwyd gweithdy ar y cyfryngau gennym yn Llundain gyda golygyddion a newyddiadurwyr.

Cyflwynodd ein Cyfarwyddwr Gweithrediadau dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar alwadau ffôn a negeseuon testun niwsans.

Ymddangosodd y Comisiynydd o flaen y Pwyllgor Dethol ar Faterion Gwladol i ateb cwestiynau ar archwiliad yr ICO i gleientiaid archwilwyr preifat twyllodrus.

Cyflwynodd yr ICO dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus ar ystadegau a data agored mewn llywodraeth.

Hydref 2013

Bu i ni gyhoeddi cosbau ariannol sifil yn erbyn y canlynol am fethu â chadw data personol yn ddiogel:

- Cyngor Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Tachwedd 2013

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym i:

- Bwyllgor Dethol Grŵp Hollbleidiol Seneddol ar alwadau niwsans.
- Bwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ar y Bil Mewnfudo.

Bu i'r Uwch Dribiwnlys gynnal ein cyhoeddiad o gosb ariannol sifil yn erbyn Ymddiriedolaeth GIG Cymuned Llundain Ganol.

Rhagfyr 2013

Cyhoeddwyd canllaw gennym ar apiau ffonau symudol a'r Ddeddf Diogelu Data.

Cyhoeddwyd cosb ariannol sifil gennym yn erbyn First Financial (UK) Cyf wedi i'r cwmni anfon miliynau o negeseuon testun spam.

Ionawr 2014

Lansiwyd ymgynghoriad gennym ar ganllaw ar ddiogelu data ar gyfer y cyfryngau.

Cawsom wahoddiad gan GIG Western Isles i gyflwyno sgyrsiau a gweithdai yn canolbwyntio ar rannu data. Bu i ni gyfarfod â rhanddeiliaid lleol eraill hefyd a, thros dri diwrnod, gymryd rhan mewn 26 o ddigwyddiadau.

Chwefror 2014

Bu i ni amlygu'r heriau a wynebir gan yr asiantaethau maethu a mabwysiadu annibynnol wrth ddiogelu gwybodaeth bersonol sensitif.

Trefnwyd gweithdai gennym ledled Cymru ar arferion da o ddelio â gwybodaeth bersonol, gan dargedu staff mewn sefydliadau llai megis elusennau, asiantaethau gwirfoddol a'r sector cyhoeddus.

Cod ymarfer newydd ar asesiadau o'r effaith ar breifatrwydd.

Mawrth 2014

Tribiwnlys haen gyntaf yn cynnal hysbysiadau dyfarniad yr ICO yn gorchymyn yr:

- Adran Gwaith a Phensiynau i ddatgelu adroddiad ar Gredyd Cynhwysol; a'r
- Adran Iechyd i ddatgelu rhannau o ddyddiadur yr Ysgrifennydd Gwladol.

Bu i'r Llys Apêl ganiatáu adolygiad barnwrol papur newydd y Guardian o ddefnydd y Twrnai Cyffredinol o'r feto ar ddyfarniad yr Uwch Dribiwnlys yn gorchymyn datgelu gohebiaeth Tywysog Cymru â Gweinidogion.

Canllaw a ddiweddarwyd ar ymgyrchu gwleidyddol.

Cynhadledd flynyddol yr ICO ar gyfer Ymarferwyr Diogelu Data a gynhaliwyd ym Manceinion gyda 750 o fynychwyr a 35 o siaradwyr.

Cyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig gennym i Bwyllgor Safonau, Gweithdrefnau a Phenodiadau Cyhoeddus Senedd yr Alban i weithdrefnau ar gyfer ystyried deddfwriaethu.